# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad y cyfarfod:

**Fideogynhaliad (ar Microsoft Teams)**

Dyddiad: Dydd Iau, 10 Rhagfyr 2020

Amser: 09.00 - 13.00

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)<br>Ronnie Alexander<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts<br>Hugh Widdis |
| Swyddogion: | Craig Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Joanna Adams, Uwch Bartner Busnes yr Aelodau<br>Martin Jennings, Arweinydd Tîm Ymchwil<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol<br>Dean Beard, Cymorth Busnes i'r Aelodau<br>Deb Suller, Cymorth Busnes i'r Aelodau<br>Huw Gapper, Trawsnewid Strategol<br>Dan Collier, Trawsnewid Strategol<br>Gareth Price, Pennaeth Cyfathrebu<br>Ian Thomas, Prosiect Rheoli Cynnwys a'r Wefan<br>John Brassington, Prosiect Rheoli Cynnwys a'r Wefan |
| Ysgrifenyddiaeth: | Lleu Williams (Clerc)<br>David Lakin (Dirprwy Glerc) |

BWRDD TALIADAU
REMUNERATION BOARD

## 1 Eitem i'w thrafod: Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r bwrdd a'r swyddogion i'r cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Dean Beard, Deb Suller, Dan Collier a Huw Gapper o Gomisiwn y Senedd i'r cyfarfod.

1.3 Derbyniodd y bwrdd gofnodion y cyfarfod ym mis Tachwedd, fel y'u diwygiwyd.

1.4 Nododd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 a chytunwyd nad oedd yn rhaid gwneud newidiadau ychwanegol i'r cymorth sy'n cael ei roi ar hyn o bryd.

1.5 Nododd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y ddeddfwriaeth ynghylch pwerau i ohirio etholiad y Senedd yn 2021 yn ôl yr angen. Holodd y bwrdd ynghylch effaith gohirio'r etholiad ar y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, gan gytuno y dylid trafod y mater hwn mewn rhagor o fanylder yn ei gyfarfod nesaf.

1.6 Cytunodd y bwrdd ar fân ddiwygiadau i ffurflen y Gofrestr o Fuddiannau, gan gytuno y dylai'r aelodau geisio llenwi'r ffurflen erbyn y cyfarfod nesaf.

1.7 Cafwyd cydnabyddiaeth gan y bwrdd fod angen penodi Swyddog Diogelu Data sy'n annibynnol, sy'n arbenigwr mewn diogelu data, sydd ag adnoddau digonol ac sy'n adrodd yn ôl i'r lefel reoli uchaf.

1.8 Cytunodd y bwrdd i adolygu ei hysbysiad preifatrwydd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

1.9 Cytunodd y bwrdd i drafod y wybodaeth ddiweddaraf am y wefan newydd yn ystod y cyfarfod nesaf.

1.10 Trafododd y bwrdd ei flaenraglen waith, gan gytuno i gael dwy drafodaeth ar wahân ar gynllunio ar gyfer senarios yn y dyfodol.

**Camau gweithredu:**

- <u>Yr ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi cofnodion y cyfarfod ym mis Tachwedd.</u>
- <u>Yr ysgrifenyddiaeth i lunio dogfen i roi cyngor i'r bwrdd ar ddeddfwriaeth arfaethedig gan Lywodraeth Cymru ynghylch etholiad y Senedd yn 2021, i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf.</u>
- <u>Yr ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r Gofrestr o Fuddiannau ac anfon y fersiwn ddiwygiedig at aelodau'r bwrdd.</u>
- <u>Yr ysgrifenyddiaeth i adolygu hysbysiad preifatrwydd y bwrdd a rhoi cyngor i'r bwrdd ar y broses o benodi Swyddog Diogelu Data.</u>
- <u>Yr ysgrifenyddiaeth i lunio papurau trafod i helpu i gynllunio ar gyfer gwahanol senarios yn ystod y cyfarfod nesaf.</u>

## 2 Eitem i'w thrafod: Adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd

2.1 Cytunodd y bwrdd i ohirio'r drafodaeth ar gymorth mewn perthynas â diogelwch yr Aelodau tan y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai'r materion hyn yn cael eu trafod fel rhan o drafodaeth strategol ehangach ar y cymorth mewn perthynas â diogelwch a roddir i Aelodau o'r Chweched Senedd.

2.2 Trafododd y bwrdd gynigion ar gyfer cynnal ymgynghoriad fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Cytunodd y bwrdd ar y cynigion a ganlyn:

- O gofio'r amgylchiadau economaidd presennol, ar ôl rhewi cyflogau'r Aelodau yn 2019/20, mae'r bwrdd yn cynnig:
    - ar gyfer cyflogau 2020/21, fod penderfyniad y bwrdd i rewi cyflogau ar gyfradd 2019/20 yn parhau (hynny yw, peidio â chynyddu cyflogau 4.4 y cant, sef y cynnydd mewn enillion cyfartalog a gafwyd gan weithwyr eraill yng Nghymru yn y flwyddyn berthnasol);
    - ar gyfer cyflogau 2021/22, i gynyddu'r cyflogau sylfaenol a gafodd eu rhewi 2.4 y cant, sef y cynnydd a gafwyd gan weithwyr eraill yng Nghymru yn y flwyddyn berthnasol – mae hyn yn golygu mai cyflog sylfaenol Aelodau ar ddechrau'r Chweched Senedd fydd £69,273, yn hytrach na'r £72,321 a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020; a
    - chyflwyno uchafswm o 3 y cant o ran cynnydd mewn cyflog blynyddol, yn gysylltiedig â mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, a gwrthod unrhyw ostyngiad o dan sero y cant i gyflogau'r Aelodau a deiliaid unrhyw swyddi ychwanegol yn y Chweched Senedd.
- Peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer y Chweched Senedd.
- Dileu unrhyw gyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd, neu roi'r term priodol yn lle'r cyfeiriadau hyn yn ôl yr angen, yn narpariaethau'r Penderfyniad ynghylch teithiau gan Aelodau.
- Symud costau deunyddiau ysgrifennu mewn ffordd niwtral o ran cost o Gomisiwn y Senedd at Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. I adlewyrchu hyn, bydd lwfans y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn cynyddu £1,800 i £20,060 (neu £6,712 lle bo Aelod yn gweithio o Dŷ Hywel yn unig) ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.
- Bydd Aelodau sy'n dychwelyd yn gallu hawlio costau sy'n deillio o newid enw'r sefydliad i'r Senedd o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

- Gwella cynllun pensiwn staff cymorth drwy gyflwyno cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr, lle bydd y cyflogwr yn talu swm sy'n gyfatebol i gyfraniad y cyflogai hyd at uchafswm o 3 y cant o gyflog y cyflogai;
- O ran cyflogau staff cymorth Aelodau o'r Senedd yn ystod y Chweched Senedd, cyflwyno uchafswm o 3 y cant o ran cynnydd mewn cyflog blynyddol, yn ôl mynegai'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, a gwrthod unrhyw ostyngiad o dan sero y cant.
- Dileu'r angen am ganllawiau ychwanegol gan y bwrdd ynghylch y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu. Fel sy'n digwydd gyda'r holl wariant o dan y Penderfyniad, bydd Rheolau a Chanllawiau'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch Defnyddio Adnoddau'r Senedd yn berthnasol. Fel diwygiad canlyniadol, mae'r bwrdd yn cynnig cynnwys terfyn amser cyfatebol o bedwar mis cyn etholiad cyffredinol yn y Penderfyniad ynghylch polisi ac ymchwil o dan y lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol (mae'r terfyn amser hwn eisoes wedi'i gynnwys fel rheol yng Nghronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yr Aelodau, ond mae'r un terfyn amser wedi'i nodi fel canllaw yn unig yn y lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol).
- Gall Aelodau ond talu am gostau argraffu ac arwyddion o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, nid y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.
- Mewn ymateb i'r chwyddiant mewn costau a amlygwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a'r mynegai prisiau defnyddwyr, cynyddu'r lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 1.94 y cant i £1,018,500 ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.
- Newid y diffiniad o bleidiau gwleidyddol yn yr adran 'Dehongli' yn y Penderfyniad fel a ganlyn:
    - "Ystyr "Plaid Wleidyddol" yw (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru â'r Comisiwn Etholiadol neu (ii) sydd wedi'i chydnabod fel grŵp o dan Reol Sefydlog 1.3 (ii), neu (iii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ei fod yn aelod o Blaid Wleidyddol gofrestredig."

2.3 Cytunodd y bwrdd ar amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad.

2.4 Cytunodd y bwrdd ar y rhestr o randdeiliaid ar gyfer yr ymgynghoriad, fel y'i trafodwyd. At hynny, nododd y bwrdd ei awydd i ymgysylltu â Senedd Ieuenctid Cymru eto yn y dyfodol. Cytunwyd y dylid trafod hyn fel rhan o'r trafodaethau strategol yn y dyfodol.

2.5 Cytunodd y bwrdd i gynnwys fersiwn gryno o'r hysbysiad preifatrwydd yn y ddogfen ymgynghori, gyda linc i'r hysbysiad preifatrwydd llawn ar ei wefan.

2.6 Cytunodd y bwrdd i'r diwygiadau i'r ddogfen ymgynghori ddrafft.

2.7 Cytunodd y Cadeirydd i adolygu fersiwn derfynol y datganiad i'r wasg ynghylch y ddogfen ymgynghori yn dilyn y cyfarfod.

**Camau gweithredu:**

- Yr ysgrifenyddiaeth i lunio dogfen ymgynghori i'w chyhoeddi.
- Yr ysgrifenyddiaeth i lunio llythyr ymgynghori a datganiad i'r cyfryngau i'w cyhoeddi.

## 3 Eitem i'w thrafod: Gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu'r Bwrdd

3.1 Cytunodd y bwrdd ar ei flaenoriaethau cyffredinol ar gyfer ei waith cyfathrebu ac ymgysylltu yn ystod cyfnod y bwrdd presennol.

3.2 Trafododd y bwrdd sut y gallai wella ei gyfathrebiadau mewnol, gan gytuno i ymgynghori â'r Aelodau a'u staff cymorth ynghylch sut y mae'n cynnal ei ymgynghoriadau.

3.3 Trafododd y bwrdd opsiynau ar gyfer ei gysylltiadau allanol a'i gyfathrebiadau. Nododd y bwrdd ei fod yn awyddus i drafod defnyddio dulliau mwy cydgynghorol o ymgysylltu ar faterion a phenderfyniadau pwysig, yn ogystal â datblygu perthynas mwy gweithredol â rhanddeiliaid yn y cyfryngau.

3.4 Cytunodd y bwrdd i drafod cynyddu ei bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol ac i ofyn am gyngor gan dîm Cyfathrebu y Senedd ynghylch sut i wneud ei waith yn fwy deniadol ar lwyfannau o'r fath.

3.5 Cafodd y bwrdd gyflwyniad i wefan newydd y Senedd.

3.6 Trafododd y bwrdd ei dudalennau ar wefan newydd y Senedd a phryd y byddant ar gael 'yn fyw'. Cytunodd y dylid trosglwyddo parth y bwrdd ar y we i wefan newydd y Senedd ar ôl gwneud newidiadau i'r cynlluniau drafft ar gyfer y tudalennau perthnasol.

3.7 Cytunodd i drafod ei dudalennau ar y we eto yn ystod y cyfarfod nesaf.

**Camau gweithredu:**

- Yr ysgrifenyddiaeth i lunio amlinelliad o drafodaethau a phwyntiau trafod y cytunwyd arnynt ar gyfer diwrnod cynllunio strategaeth yn y dyfodol.
- Yr ysgrifenyddiaeth i drafod ffyrdd o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol â thîm Cyfathrebu y Senedd.
- Yr ysgrifenyddiaeth i olygu a llunio tudalennau drafft ar y we i'w trafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

## 4 Unrhyw fater arall: dyfarniad McCloud

4.1 Trafododd y bwrdd y llythyr a ddaeth i law gan Gadeirydd y Bwrdd Pensiynau.

4.2 Cytunodd y bwrdd i ofyn am gyngor cyfreithiol ar gymhwyso dyfarniad McCloud yng nghyd-destun Cynllun Pensiwn yr Aelodau.

4.3 Cytunodd y bwrdd i drafod y mater hwn yn ystod ei gyfarfod nesaf.

**Camau gweithredu:**

- Yr ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i opsiynau ar gyfer gofyn am gyngor ar gymhwyso dyfarniad McCloud yng nghyd-destun Cynllun Pensiwn yr Aelodau, ac i gael cymeradwyaeth drwy e-bost cyn gwneud cais ffurfiol am y cyngor hwn.